# CYNGOR DINAS CAERDYDD

# CYNGOR: 23 MAWRTH 2017

---

# CYNNIG CABINET

---

**CYNGOR DINAS CAERDYDD  CAERDYDD DDWYIEITHOG: STRATEGAETH 5 MLYNEDD YR IAITH GYMRAEG 2017-2022**

**Rhesymau dros yr Adroddiad hwn**

1. I gytuno a chymeradwyo cynnwys Strategaeth Caerdydd Ddwyieithog 2017-2022 **(atodiad 1)** yn unol â Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (rhif 1) 2015 dan Fesur yr Iaith Gymraeg (Cymru) 2011

**Cefndir**

2. Sefydlodd Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 fframwaith cyfreithiol i osod dyletswyddau ar sefydliadau penodol i gydymffurfio â safonau mewn perthynas â'r Gymraeg trwy is-ddeddfwriaeth (Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 1) 2015). Rhestrir y safonau a gyflwynwyd i Gyngor Dinas Caerdydd yn 'Hysbysiad Cydymffurfio Cyngor Dinas Caerdydd - Adran 44 Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 (**atodiad 2**).

3. Mae Safon 145 Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 1) 2015 yn mynnu bod y Cyngor yn cynhyrchu a chyhoeddi strategaeth 5 mlynedd erbyn 30 Medi 2016 sy'n sefydlu sut y byddwn yn hyrwyddo a hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg. Mae'r strategaeth yn cynnwys targed i gynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg yng Nghaerdydd yn ogystal â chamau penodol i hwyluso'r defnydd o'r iaith yn unol â Strategaeth y Gymraeg 2012 - 17 Llywodraeth Cymru a strategaeth ddrafft Llywodraeth Cymru: *miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050* (a gyhoeddwyd er mwyn ymgynghori arno yn Awst 2016).

   Mae Safon y Gymraeg 145 yn datgan:

   | |
   |---|
   | **Rhaid i chi lunio, a chyhoeddi ar eich gwefan, strategaeth 5 mlynedd sy'n esbonio sut yr ydych yn bwriadu mynd ati i hybu'r Gymraeg ac i hwyluso defnyddio'r Gymraeg yn ehangach yn eich ardal; a rhaid i'r strategaeth gynnwys (ymysg pethau eraill) - (a) targed (yn nhermau canran y siaradwyr yn eich ardal) ar gyfer cynyddu neu gynnal nifer y siaradwyr Cymraeg yn eich ardal erbyn diwedd y cyfnod o 5 mlynedd dan sylw, a (b) datganiad sy'n esbonio sut yr ydych yn bwriadu cyrraedd y targed hwnnw; a rhaid i chi adolygu'r strategaeth a chyhoeddi fersiwn ddiwygiedig ohoni ar eich gwefan o fewn 5 mlynedd i ddyddiad cyhoeddi'r strategaeth (neu ddyddiad cyhoeddi fersiwn ddiwygiedig ohoni).** |

4. Dros y 25 mlynedd diwethaf, mae nifer y siaradwyr Cymraeg yng Nghaerdydd wedi mwy na dyblu gyda ffigyrau Cyfrifiad 2011 yn dangos bod dros 16% o boblogaeth y ddinas yn meddu ar un neu fwy o sgiliau yn y Gymraeg. Wrth i'r ddinas dyfu, nod y strategaeth hon yw cynyddu nifer a chanran y siaradwyr a dysgwyr Cymraeg yng Nghaerdydd., yn ogystal â chynyddu'r defnydd ar y Gymraeg yn y ddinas.

5. Mae strategaeth iaith bresennol Llywodraeth Cymru, *Iaith byw: iaith fyw,* yn dirwyn i ben ar 31 Mawrth 2017. Ym mis Awst 2016 cyhoeddodd Llywodraeth Cymru, er mwyn ymgynghori arno, strategaeth iaith ddrafft gyda tharged o filiwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2015. Mae'r cyfnod ymgynghorol ar gyfer y strategaeth ddrafft bellach wedi dod i ben a disgwylir i'r strategaeth newydd gael ei chyhoeddi yn ddiweddarach eleni. Byddwn yn ymdrechu i sicrhau bod ein strategaeth yn cytgordio â blaenoriaethau a gweithredoedd strategaeth newydd Llywodraeth Cymru, a all olygu y bydd angen adolygiad yn 2017-18 er mwyn alinio'r strategaeth hon ymhellach gyda'r ddogfen genedlaethol newydd.

6. Mae dyletswydd statudol ar y Cyngor dan safon 145 i gynnwys targed yn y strategaeth i gynyddu neu gynnal niferoedd y siaradwyr Cymraeg erbyn diwedd y cyfnod 5 mlynedd dan sylw. I gefnogi gweledigaeth Llywodraeth Cymru i gael miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050, ac er mwyn i Gaerdydd chwarae ei rhan yn y gwaith o gyflawni'r weledigaeth hon, byddai angen i ni gynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg (3+ oed) yng Nghaerdydd gan 15.9% o 36,735 (Cyfrifiad 2011) i 42,584 (Cyfrifiad 2021). Mae'r targed hwn wedi ei gynnwys yn Strategaeth Caerdydd Ddwyieithog.

7. Y fethodoleg a ddefnyddiwyd ar gyfer y targed hwn oedd defnyddio'r cynnydd canrannol sydd ei angen bob blwyddyn yn nifer y siaradwyr Cymraeg i gyrraedd y miliwn erbyn 2050 (i fyny o 562,016 yng nghyfrifiad 2011). Byddai'r cynnydd blynyddol o 1.5% o'i osod ar Gaerdydd yn cynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg i 42,584 erbyn Cyfrifiad 2021; cynnydd o 15.9% ar ffigwr Cyfrifiad 2011.

8. Mae'r dull a fabwysiadwyd yn Strategaeth Caerdydd Ddwyieithog wedi ei strwythuro i adlewyrchu'r meysydd strategol a amlinellwyd yn strategaeth iaith bresennol Llywodraeth Cymru, yn benodol y Teulu, Plant a Phobl Ifanc, y Gymuned, Seilwaith, y Gweithle a Gwasanaethau Iaith Gymraeg.

9. Yn dilyn ymgynghori, mae'r meysydd strategol a nodwyd uchod wedi eu cyfuno i greu 3 maes strategol 1) Y Teulu, Plant a Phobl Ifanc 2) Cymuned a seilwaith a 3) Gwasanaethau Iaith Gymraeg a'r Gweithle. Mae strategaeth ddrafft Caerdydd Ddwyieithog yn nodi ein blaenoriaethau strategol dan bob un o'r meysydd hyn, ac yn nodi'r newid y bydd angen i ni ei wneud i gyflawni'r weledigaeth a sefydlwyd gan y strategaeth.

10. Mae cefnogi pobl ifanc, teuluoedd a chymunedau i ddysgu a siarad Cymraeg hefyd wrth wraidd y gwaith o gyflawni ein huchelgeisiau. Yn ddiweddar mae cynnydd sylweddol wedi bod yn nhwf addysg Gymraeg

yn y ddinas, gyda chynnydd parhaus yn nifer y plant a phobl ifanc sy'n cael addysg Gymraeg. Bydd y system addysg a Chynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg y Cyngor yn chwarae rôl allweddol yn sicrhau twf yr iaith yn y dyfodol wrth i ni geisio cynyddu nifer y plant – a'r rhieni - sy'n cael y cyfle i ddysgu a siarad Cymraeg, a chael cyfleoedd i ddefnyddio'r iaith y tu allan i glwydi'r ysgol.

11. Mae hon yn strategaeth i'r ddinas gyfan, nid i un sefydliad yn unig. Bydd cyflawni'r strategaeth yn dibynnu ar weithio mewn partneriaeth: rhwng partneriaid sector cyhoeddus, rhwng y sectorau cyhoeddus, preifat ac addysg yn ogystal â'r dinasyddion. Mae llwyddiant y strategaeth yn dibynnu ar gydweithio cryf rhwng partneriaid, gweler Atodiad 2 y strategaeth am restr lawn o sefydliadau partner.

12. Trwy gyfrwng y strategaeth hon byddwn yn dechrau ar daith i hyrwyddo a hwyluso'r iaith Gymraeg yng Nghaerdydd, ac yn ail ymweld â'r strategaeth er mwyn gosod targedau pellach. Deellir na ellir cyflawni gweledigaeth y Cyngor o greu Caerdydd ddwyieithog o fewn 5 mlynedd yn unig.

**Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg 2017-2020**

13. Bob tair blynedd mae gofyn i bob awdurdod lleol yng Nghymru gyflwyno Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg (CSCA) tair blynedd. Mae CSCA yn gynllun sy'n manylu ar gyfeiriad strategol ar gyfer cynllunio a rhoi addysg cyfrwng Cymraeg ac addysg Gymraeg yn yr awdurdod.

14. Mae Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg Caerdydd yn cwmpasu'r cyfnod 2017-2020. Strategaeth Addysg cyfrwng Cymraeg (Ebrill 2010) bresennol Llywodraeth Cymru yw sail y cynllun ynghyd â datganiad polisi ar gyfer 2015-16 (Mawrth 2016). Mae hefyd yn rhan greiddiol o Strategaeth 5 Mlynedd yr Iaith Gymraeg (2017-2022) Caerdydd Ddwyieithog.

15. Caiff y targed i gynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg yng Nghaerdydd yn unol â gweledigaeth Llywodraeth Cymru ei chyflawni i raddau helaeth trwy gyfrwng y CSCA a'r system Addysg. Mae'r dyheadau o fewn CSCA Caerdydd yn unol â strategaeth bum mlynedd Caerdydd Ddwyieithog ac fe gaiff hyn ei adlewyrchu yn y ffaith fod y gweledigaethau a aliniwyd a chamau gweithredu penodol i'w gweld yn y ddwy ddogfen fel ei gilydd.

16. Mae'r ddwy strategaeth yn rhannu'r un weledigaeth sef sicrhau gweledigaeth Llywodraeth Cymru o gyrraedd miliwn o siaradwyr Cymraeg yng Nghymru erbyn 2050 ac i ddatblygu Caerdydd ddwyieithog gydag addysg cyfrwng Cymraeg a gofal plant Cymraeg ar gael i bawb, a lle caiff yr iaith Gymraeg ei hamddiffyn a'i meithrin er mwyn i genedlaethau'r dyfodol ei defnyddio a'i mwynhau.

17. Mae'r Gweinidog dros Ddysgu Gydol Oes a'r Iaith Gymraeg wedi nodi ei fwriad i adolygu'r cynlluniau CSCA fel rhan o adolygiad ehangach ar gyfer fframwaith ddeddfwriaethol yr iaith Gymraeg. (*Pwyllgor Diwylliant,*

*yr Iaith Gymraeg a Chyfathrebu* / 18/01/2017 Rhif 244).

18. Ar ben hynny, mae Llywodraeth Cymru nawr wedi cynnwys Addysg fel un o'r chwe maes strategol yn ei Strategaeth y Gymraeg ddrafft a fydd yn disodli Strategaeth Addysg flaenorol a oedd ar wahân. Unwaith i'w Strategaeth y Gymraeg gael ei chadarnhau a'i chyhoeddi yn hwyrach eleni fe fydd cyfle i'r Cyngor adolygu Strategaeth Caerdydd Ddwyieithog a chynnwys Addysg/CSCA fel rhan o honno.

**Ymgynghoriad**

19. Cyn yr ymgynghoriad cyhoeddus cynhaliwyd digwyddiad ymgynghori mewnol ar ffurf gweithdy gyda Chydlynwyr y Gymraeg, Hyrwyddwyr y Gymraeg a swyddogion polisi i ffurfio prif flaenoriaethau'r strategaeth. Yn dilyn y digwyddiad hwn cyhoeddwyd arolwg ymgynghori mewnol ar fewnrwyd y Cyngor er mwyn cael barn ein cyflogeion ac er mwyn datblygu ein blaenoriaethau strategol ymhellach. Cafodd y strategaeth ddrafft ei hystyried gan yr Uwch Dîm Rheoli a Grŵp Aelodau Caerdydd Ddwyieithog cyn cyhoeddi'r Strategaeth ddrafft ar 30 Medi 2016.

20. Dechreuodd y cyfnod ymgynghori cyhoeddus ar 30 Medi 2016, gan bara am 6 wythnos ac yn ystod y cyfnod hwn cafodd y Strategaeth ei hystyried gan y Pwyllgor Craffu Adolygu Polisi a Pherfformiad.

21. Fel rhan o'r ymgynghoriad cynhaliwyd gweithdy ar 20 Hydref gyda 26 o'n prif bartneriaid a rhanddeiliaid. Ymhlith y mynychwyr roedd Llywodraeth Cymru, Comisiynydd y Gymraeg, Prifysgol Caerdydd, sefydliadau'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus, Menter Caerdydd ac Urdd Gobaith Cymru.

22. Derbyniwyd 254 o ymatebion yn ystod y cyfnod ymgynghori. O'r ymatebion a dderbyniwyd i'r ymgynghoriad cyhoeddus (223 ymateb) roedd **70.3%** yn cytuno'n gryf neu'n tueddu i gytuno â'r weledigaeth o Gaerdydd wirioneddol ddwyieithog. Roedd **53.2%** yn cytuno â'n targed i gynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg yng Nghaerdydd.

***Er mwyn cefnogi gweledigaeth Llywodraeth Cymru o filiwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050, byddai angen cynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg (3+ oed) yng Nghaerdydd gan 15.9% o 36,735 (Cyfrifiad 2011) i 42,584 (Cyfrifiad 2021). Ydych chi'n cytuno â'n targed dros dro?***

| | | |
|---|---|---|
| Ydw | 118 | **(53.2%)** |
| Nac ydw – mae'n rhy uchel | 72 | **(32.4%)** |
| Nac ydw – mae'n rhy isel | 32 | **(14.4%)** |

***Ydych chi'n cytuno gyda'r weledigaeth yn gyffredinol ar gyfer Caerdydd wirioneddol ddwyieithog?***

| | | |
|---|---|---|
| Cytuno'n Gryf | 126 | **(56.8%)** |
| Tueddu i Gytuno | 30 | **(13.5%)** |
| Y naill na'r llall | 11 | **(5.0%)** |

| | | |
|---|---|---|
| Tueddu i Anghytuno | 18 | **(8.1%)** |
| Anghytuno'n Gryf | 35 | **(15.8%)** |
| Ddim yn Gwybod | 2 | **(0.9%)** |

** Nid yw'r canrannau'n rhoi 100% yn sgil gwall talgrynnu.*

**Rhoi ar Waith a Monitro**

23. Mae Safon 146 yn mynnu bod y Cyngor yn asesu i ba raddau y mae'r targedau a'r camau gweithredu yn y strategaeth wedi eu cyrraedd 5 mlynedd wedi cyhoeddi'r strategaeth. Bydd yr asesiad yn cynnwys y niferoedd diweddaraf o siaradwyr Cymraeg a'u hoedrannau a rhestr o weithgareddau y mae'r awdurdod wedi cytuno i'w trefnu neu eu hariannu yn ystod y 5 mlynedd blaenorol er mwyn hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg.

Mae Safon 146 yn Nodi:

**Bum mlynedd wedi cyhoeddi strategaeth yn unol â safon 145 rhaid i chi -**

**(a) asesu i ba raddau y llwyddoch i ddilyn y strategaeth honno a chyrraedd y targed a osodwyd, a**

**(b) cyhoeddi'r asesiad ar eich gwefan, gan sicrhau ei fod yn cynnwys y wybodaeth ganlynol -**

**(i) nifer y siaradwyr Cymraeg yn eich ardal, ac oed y siaradwyr hynny;**

**(ii) rhestr o'r gweithgareddau a drefnwyd neu a ariannwyd gennych yn ystod y 5 mlynedd blaenorol er mwyn hyrwyddo'r defnydd ar y Gymraeg.**

24. Gan fod hon yn strategaeth ar gyfer y ddinas gyfan, nid i un sefydliad yn unig, bydd cyflawni'r strategaeth yn dibynnu ar gydweithio partneriaid, rhwng y sectorau cyhoeddus, preifat ac addysg. Mae'r holl bartneriaid a restrwyd yn y strategaeth hon wedi cytuno i roi'r cynllun ar waith a monitro cynnydd yn erbyn adrannau perthnasol y cynllun gweithredu.

25. Caiff adolygiad allanol annibynnol ei drefnu o'r strategaeth cyn diwedd y flwyddyn wedi i strategaeth y Gymraeg newydd Llywodraeth Cymru gael ei chyhoeddi i sicrhau fod cynllun gweithredu'r Strategaeth Ddwyieithog yn cyflawni'r blaenoriaethau o fewn y 3 maes strategol.

26. Ar ben hynny, mae Fforwm Iaith Gymraeg hir-sefydlog Caerdydd, a ailenwyd yn Fforwm Caerdydd Ddwyieithog, sy'n cynnwys cynrychiolaeth gan yr holl bartneriaid a restrwyd o fewn y Strategaeth, wedi cytuno i roi'r strategaeth ar waith a'i monitro ar ran ei sefydliadau ei hun tra bydd tîm Caerdydd Ddwyieithog yn arwain ar hwyluso'r Strategaeth o safbwynt y Cyngor.

27. Mae disgwyl i Grŵp Aelodau Caerdydd Ddwyieithog gwrdd ar 13 Mawrth 2017. Byddwn yn ymgynghori â nhw ar eu barn ar drefniadau llywodraethu i'r dyfodol ar gyfer y strategaeth hon. Yn dilyn y cyfarfod hwn, bydd y Cabinet yn cael diweddariad ar lafar. Yn amodol ar eu barn nhw, argymhellir y dylai Craffu gymryd cyfrifoldeb llywodraethu dros y strategaeth yn y dyfodol.

**Cyfleoedd Ariannu Posibl**

28. Ar 18 Hydref 2016, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru fod yr iaith Gymraeg i dderbyn £5 miliwn yn ychwanegol o gyllid. Ers hynny maent wedi cadarnhau y caiff £3 miliwn o hwn ei fuddsoddi yn y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol i wella a chynyddu'r defnydd o'r Gymraeg yn y gweithle. Y bwriad yw y bydd y buddsoddiad hwn yn galluogi'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol i gynnig cefnogaeth ymarferol i gyrff, gan eu rhoi mewn sefyllfa i gynnig gwasanaeth dwyieithog rhagorol i'r cyhoedd a chydymffurfio â Safonau'r Gymraeg. Bydd yr ariannu hwn yn cynorthwyo i gyflawni'r blaenoriaethau a nodwyd o safbwynt maes 3 y Strategaeth, yn benodol y Gweithle a Gwasanaethau Iaith Gymraeg.

29. Caiff gweddill y £2m ei neilltuo i hyrwyddo a hwyluso'r Gymraeg; fodd bynnag ni chafwyd hyd yma unrhyw gyhoeddiad ffurfiol ynghylch union natur y buddsoddiad hwn.

**Rhesymau dros yr Argymhellion**

30. Mae Safon 145 Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 1) 2015 yn mynnu bod y Cyngor yn cynhyrchu a chyhoeddi strategaeth 5 mlynedd sy'n nodi sut y byddwn yn hyrwyddo a hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg. Cyhoeddwyd y strategaeth ddrafft er mwyn ymgynghori arno ar 30 Medi 2016 a chynhyrchwyd y cynllun gweithredu canlynol gyda phartneriaid yn dilyn y cyfnod ymgynghori.

**Goblygiadau Cyfreithiol**

31. Mae Safon 145 Safonau'r Gymraeg yn mynnu bod y Cyngor yn cynhyrchu, a chyhoeddi ar ei wefan, strategaeth 5 mlynedd sy'n nodi sut mae'n bwriadu hyrwyddo'r Gymraeg ac i hwyluso'r defnydd ar y Gymraeg yn ehangach yn y Cyngor. Rhaid i'r Strategaeth gynnwys (ymhlith materion eraill) –

a) targed (o safbwynt canran y siaradwyr yng Nghaerdydd) i gynyddu neu gynnal nifer y siaradwyr Cymraeg yng Nghaerdydd erbyn diwedd y cyfnod 5 mlynedd, a

b) datganiad sy'n sefydlu sut y bwriada'r Cyngor gyrraedd y targed hwnnw:

Rhaid i'r Cyngor adolygu'r Strategaeth a chyhoeddi fersiwn ddiwygiedig ar ei wefan o fewn 5 mlynedd i gyhoeddi'r Strategaeth (neu o gyhoeddi Strategaeth ddiwygiedig)

32. Bum mlynedd wedi cyhoeddi'r Strategaeth rhaid i'r Cyngor –

a) asesu i ba raddau y mae wedi dilyn y Strategaeth a chyrraedd y targed a osodwyd, a

b) cyhoeddi'r asesiad hwnnw ar wefan y Cyngor, gan sicrhau ei fod yn cynnwys y wybodaeth ganlynol –

(i) nifer y siaradwyr Cymraeg yng Nghaerdydd a'u hoedrannau;

(ii) rhestr o weithgareddau y mae'r cyngor wedi eu trefnu neu eu hariannu yn ystod y bum mlynedd blaenorol er mwyn hyrwyddo defnydd ar yr iaith.

33. Gall methu â chydymffurfio â'r gofynion hyn arwain at ymchwiliad gan Gomisiynydd y Gymraeg, gyda'r posibilrwydd o wynebu camau gorfodi ac yn y pen draw gosb droseddol.

34. Mae strategaethau a pholisïau call yn seiliedig ar ymgynghori digonol gyda rhanddeiliaid a cheir disgrifiad o'r ymgynghori a gafwyd ym mharagraffau 19-22 yr Adroddiad hwn.

35. Wrth wneud penderfyniadau rhaid i'r Cyngor gyflawni ei ddyletswyddau sector cyhoeddus dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010. Rhaid i'r Cyngor dalu sylw i'r angen
(1) gwaredu gwahaniaethu anghyfreithlon, (2) hyrwyddo cyfle cyfartal, a (3) meithrin perthnasau da ar sail nodweddion a ddiogelir.

Nodweddion a ddiogelir yw:
- Oedran
- Ailbennu Rhywedd
- Rhyw
- Hil – gan gynnwys gwreiddiau ethnig neu genedlaethol, lliw neu genedligrwydd
- Anabledd
- Beichiogrwydd a Mamolaeth
- Priodas a Phartneriaeth Sifil
- Cyfeiriadedd Rhywiol
- Crefydd neu gred – gan gynnwys diffyg cred

36. Mae'r Adroddiad yn nodi fod Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb wedi ei gwblhau. Diben Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb yw sicrhau bod y Cyngor wedi deall effaith bosib y cynnig yn nhermau cydraddoldeb fel y gall sicrhau ei fod yn gwneud penderfyniadau rhesymol a chymesur gan dalu sylw dyledus i'w ddyletswydd cydraddoldeb sector cyhoeddus. Rhaid i'r cyngor dalu sylw dyledus i'r Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb wrth wneud ei benderfyniad.

## Goblygiadau Ariannol

37. Mae'r adroddiad hwn yn sefydlu Strategaeth 5 mlynedd y Gymraeg. Mewn sefyllfa lle bydd angen cam gweithredu o ganlyniad i gynnwys y Strategaeth yna byddai gofyn talu unrhyw gostau cysylltiedig o ddyraniad yr adnoddau cyllidebol presennol neu gan ffynonellau allanol.
Lle caiff ffynonellau cyllido allanol eu nodi yna dylid rhoi ystyriaeth i unrhyw delerau ac amodau sydd ynghlwm wrth yr arian a'r cyngor hwnnw a geisiwyd.

## Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb

38. Mae Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb wedi ei gwblhau ac yn dod i'r casgliad y byddai Strategaeth 5 Mlynedd y Gymraeg Caerdydd Ddwyieithog yn cael effaith gadarnhaol ar ddatblygiad yr iaith Gymraeg (**atodiad 3**)

## YSTYRIAETH GAN Y CABINET

Ystyriodd y Cabinet yr adroddiad hwn ar 16 Mawrth 2017 a chytunodd i adolygiad allanol annibynnol o'r strategaeth a'r cynllun gweithredu.

## CYNNIG CABINET

Argymhellir i'r Cyngor y canlynol:

1) Cymeradwyo Strategaeth 5 Mlynedd yr Iaith Gymraeg Caerdydd Ddwyieithog 2017-2022 i gael ei hystyried yn y Cyngor llawn.

2) Argymell y dylai'r gwaith o graffu ar Strategaeth Caerdydd Ddwyieithog gael ei gynnwys yn benodol yng nghylch gorchwyl y Pwyllgor Craffu sy'n ymdrin â pholisi a phartneriaethau.

**Y CABINET**
16 Mawrth 2017

*Atodir yr Atodiadau canlynol:*

Atodiad 1 – Strategaeth 5 Mlynedd yr Iaith Gymraeg Caerdydd Ddwyieithog 2017-2022

Atodiad 2 – Hysbysiad Cydymffurfio Cyngor Dinas Caerdydd – Isadran 44 Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011

Atodiad 3 – Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb

Atodiad 4 - Offeryn Sgrinio Statudol